

Lenvatinib gyda everolimus ar gyfer carsinoma celloedd arenol datblygedig a gafodd ei drin yn flaenorol

24 Ionawr 2018

Mae Lenvatinib (Kisplyx), ac everolimus, ar gael ar y GIG fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â charsinoma celloedd arenol datblygedig a gafodd ei drin yn flaenorol, dim ond os ydynt yn dal yn ddigon iach i gyflawni'r rhan fwyaf o weithgareddau bob dydd.

Os nad ydych yn gymwys i gael levatinib, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwranddo'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Canser yr Aren y DU](#), 0800 002 9002
- [Ymchwil Arennau y DU](#), 0300 303 1100
- [Rhwydwaith Cymorth Canser yr Aren](#), 01209 890326 0000
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#) (CancerHelp UK yn flaenorol),
0808 800 4040

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2839-2